# Sain Ffagan
# Amgueddfa Werin Cymru



amgueddfa cymru
national museum wales



## Gwybodaeth gefndir

Agorwyd Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru i'r cyhoedd am y tro cyntaf ym 1948. Saif yr Amgueddfa ar dir Castell Sain Ffagan, plasty o ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg. Rhoddwyd y plasty, ynghyd â pharsel o dir, i bobl Cymru gan Iarll Plymouth ym 1946.

Erbyn heddiw, mae dros 40 o adeiladau hanesyddol gwreiddiol wedi'u hailgodi ar dir yr amgueddfa. Cawsant eu symud i Sain Ffagan a'u hailgodi'n ofalus fesul carreg er mwyn dangos sut beth oedd bywyd trigolion Cymru drwy'r oesau.

Mae gerddi ffurfiol Castell Sain Ffagan, gan gynnwys yr ardd rosod a'r ardd Eidalaidd, yn dal yn rhan o'r Amgueddfa.

## Beth welwn ni yno?

Ymhlith y 40 adeilad hanesyddol sydd ar y safle, mae ysgol Fictoraidd, eglwys, capel, ffermdai, bythynnod a llawer mwy. Mae pob un wedi'i ddodrefnu i ddangos cyfnod penodol mewn hanes.

Mae crefftwyr traddodiadol yn dod â phedwar o adeiladau hanesyddol Sain Ffagan yn fyw. Yma, cewch weld gwehydd, gof, melinydd a chlocsiwr wrth eu gwaith.

Yn ogystal â'r adeiladau hanesyddol, rydym yn brysur yn adeiladu orielau newydd. Byddant yn adrodd hanes Cymru – o gyfnod y trigolion cynharaf tua 250,000 o flynyddoedd yn ôl, hyd heddiw.

Mae un o ffermdai Sain Ffagan, Llwyn-yr-Eos, yn dal i fod yn fferm brysur. Rydym yn cadw bridiau prin o wahanol anifeiliaid cynhenid ac mae ein ffermwyr i'w gweld wrth eu gwaith o ddydd i ddydd. Mae garddwyr i'w gweld yn gofalu am y gerddi a'r tiroedd o'u hamgylch hefyd.

## Pa straeon ydym ni'n eu hadrodd?

Mae Sain Ffagan yn defnyddio'r adeiladau hanesyddol i adrodd stori bywydau bob dydd pobl Cymru, o Oes yr Haearn tua 2,000 o flynyddoedd yn ôl, hyd heddiw. Dyma rai o'r straeon:

**Bywyd Gwledig:**

Ymhlith yr adeiladau sydd yma mae fferm weithiol, nifer o hen ffermdai a thai gweision fferm. Mae pob un yn adrodd hanes bywyd gwledig mewn gwahanol rannau o Gymru ar wahanol adegau. Mae gennym ysgol wledig Fictoraidd o orllewin Cymru hefyd sy'n adrodd hanes addysg yng nghefn gwlad Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif.









**Troi gwlad yn dref:**

Mae nifer o adeiladau hanesyddol Sain Ffagan yn adrodd hanes y trefoli a ddigwyddodd mor sydyn yn ne Cymru.


- Codwyd tai teras Rhyd-y-Car yn wreiddiol ym Merthyr Tudful tua 1800 gan Richard Crawshay ar gyfer gweithwyr ei waith haearn. Mae chwe thŷ, bob un yn dangos cyfnod gwahanol mewn hanes, rhwng 1805 a 1985.

- Adeiladwyd Sefydliad y Gweithwyr Oakdale ym 1916 ar gyfer gweithwyr y Tredegar Iron and Coal Company. Y gweithwyr dalodd am yr adeilad cyfan.

- O Gwm Ogwr y daeth Siop Gwalia. Codwyd y siop yn wreiddiol ym 1880, ac mae'n dangos sut y newidiodd arferion siopa i gwrdd ag anghenion cymdeithas oedd yn mynd yn fwy trefol.







**Crefftau:**

Yn ogystal â'r tîm amaethyddol sydd i'w gweld wrth eu gwaith o ddydd i ddydd, mae gennym bedwar crefftwr sy'n dangos eu crefftau i'n hymwelwyr:

- gof sy'n gweithio mewn gefail a godwyd ym Mhowys yn y 18fed ganrif
- gwehydd sy'n gweithio mewn melin wlân a godwyd yn y 18fed ganrif ym Mhowys
- melinydd sy'n gweithio mewn melin wlân a godwyd yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg yng Ngheredigion
- clocsiwr sy'n gweithio mewn gweithdy o Sir Benfro.


**Crefydd:**

Mae dau addoldy i'w gweld yn Sain Ffagan:

- Eglwys Sant Teilo – eglwys o ardal Pontarddulais sydd wedi'i dangos fel Eglwys Babyddol, tua dechrau'r unfed ganrif ar bymtheg, sef cyn y Diwygiad Protestannaidd

- Capel Pen-rhiw – capel Undodaidd, anghydffurfiol, o Dre-fach Felindre, gorllewin Cymru, a adeiladwyd yn wreiddiol ym 1777.





Am ragor o wybodaeth, ewch i
**www.amgueddfacymru.ac.uk/sainffagan/addysg**



